Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board



# Cynllun Bioamrywiaeth BIP Caerdydd a'r Fro 2026/27

Ebrill 2026

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

## Cefndir a chyd-destun

### Bioamrywiaeth a'r ddyletswydd bioamrywiaeth

Mae dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac effeithiau cynyddol amlwg newid hinsawdd ar ein hamgylchedd naturiol, yn peri risg i iechyd pobl yng Nghaerdydd a'r Fro ac yn fyd-eang.

Cyflwynodd **Deddf yr Amgylchedd (Cymru)** ddyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau gwell (y ddyletswydd 'adran 6' ) sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus gan gynnwys y Bwrdd Iechyd. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi adroddiad ar y camau y mae'n eu cymryd i gynnal a gwella bioamrywiaeth, o leiaf unwaith bob 3 blynedd; a llunio cynllun gweithredu bioamrywiaeth a'i adolygu'n rheolaidd.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n llywodraethu mewnol

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd weithredu yn unol â'r pum ffordd o weithio (sydd i gyd yn berthnasol i fioamrywiaeth: hirdymor, integreiddio, cydweithio, cynnwys ac atal) a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol (gan gynnwys 'Cymru gydnerth' sy'n cynnwys cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol, ac ecosystemau sydd â'r gallu i addasu i newid hinsawdd).

O dan y Ddeddf mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod pedwar amcan llesiant (strategol) fel rhan o'n strategaeth hirdymor, **Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol**, ac un ohonynt yw '**Gweithredu ar gyfer y dyfodol**' ac mae'n cynnwys camau gweithredu i wella cynaliadwyedd amgylcheddol.

Gwneir trefniadau llywodraethu mewnol ar gyfer gosod ac adrodd ar gamau gweithredu i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth drwy'r Bwrdd Cynaliadwyedd ac Ymateb i Hinsawdd, sy'n eistedd o dan bortffolio Llunio ein Cenedlaethau i'r Dyfodol, ac sy'n gyfrifol am gyflawni'r amcan 'Gweithredu ar gyfer y dyfodol'.

Mae'r BIP yn gweithredu System Rheoli Amgylcheddol (EMS) ac mae wedi cyflawni Achrediad Safon Ryngwladol ISO14001 ac yn cael ei asesu'n allanol drwy'r Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI). Mae'r BIP hefyd yn gweithredu Polisi Rheoli Amgylcheddol cyffredinol sy'n cynnwys Rheoli Ynni, Dŵr a Chynaliadwyedd.

### Ein gweithgareddau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth

Mae BIP Caerdydd a'r Fro wedi'i gategoreiddio fel sefydliad Grŵp 3 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru); mae'r sefydliadau hyn 'yn berchen ar dir neu'n rheoli tir y tu hwnt i'w tiroedd eu hunain, p'un a yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir ai peidio'.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn effeithio'n bennaf ar fioamrywiaeth drwy'r gweithgareddau canlynol:

| Categori | Gweithgareddau |
|---|---|
| **Caffael** | Prynu, gweithgynhyrchu, cyflenwi a chludo nwyddau a deunyddiau i'r BIP |
| **Rheoli ynni ac allyriadau** | Allyriadau hylosgi uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n effeithio ar ansawdd aer a bioamrywiaeth |
| **Adeiladau newydd** | Datblygu cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd y Bwrdd Iechyd |

| Categori | Gweithgareddau |
|---|---|
| **Gwaredu dŵr ac elifion** | Defnyddio dŵr, triniaethau dŵr a gwaredu elifion i ddraeniau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth sy'n seiliedig ar ddŵr. Mae hyn yn cynnwys systemau dŵr glaw a charthffosiaeth |
| **Rheoli Gwastraff** | Bydd cynhyrchu, rheoli, ailgylchu a gwaredu gwastraff yn effeithio'n uniongyrchol ar fioamrywiaeth |
| **Teithio a thrafnidiaeth gynaliadwy** | Bydd rheoli traffig, defnyddio cerbydau'r BIP ac opsiynau teithio cynaliadwy yn effeithio'n uniongyrchol ar fioamrywiaeth |
| **Rheoli tir** | Bydd cynnal a chadw tiroedd, gerddi, llwybrau, ffyrdd a thoeau yn effeithio'n uniongyrchol ar fioamrywiaeth |

## Y cynllun hwn

Mae'r cynllun hwn yn disgrifio'r prif gamau gweithredu yr ydym yn bwriadu eu cymryd yn ystod y flwyddyn ariannol Ebrill 2026 i Fawrth 2027 i wella a diogelu bioamrywiaeth, ac mae'n eistedd ochr yn ochr â chynllun blynyddol ein sefydliad.

Wrth ddatblygu'r cynllun, fe wnaethom ystyried y camau gweithredu awgrymedig yn nhempled y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) o ran hyfywedd a chymhwysedd yn ein cyd-destun ni.

Bydd y camau gweithredu lefel uchel a ddisgrifir yma yn cael eu hategu gan gynllun mewnol mwy manwl at ddibenion rheoli prosiectau.

## Trefniadau adrodd

Bydd y gwaith hwn yn adrodd i Fwrdd Cynaliadwyedd ac Ymateb i'r Hinsawdd y Bwrdd Iechyd, sy'n dod o dan bortffolio Llunio ein Cenedlaethau i'r Dyfodol.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd hyn yn cyd-fynd â chylch adrodd arferol y Bwrdd Iechyd a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol BIP Caerdydd a'r Fro.

## Cynllun gweithredu 2026/27

Mae'r camau gweithredu a restrir yma yn cynrychioli camau gweithredu newydd ar gyfer 2026/27. Mae rhestr o gamau 'busnes fel arfer' yr ydym yn eu cymryd yn rheolaidd i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth wedi'u cynnwys yn yr adran ganlynol.

### Gweithio gyda phartneriaid

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cynyddu ein hymgysylltiad â'r **Partneriaethau Natur Lleol** yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg *(amcanion 1, 2, 4 NRAP)*
- Ymgysylltu â **thîm Parciau Cyngor Caerdydd** i nodi unrhyw feysydd ar gyfer cydweithio, er enghraifft presgripsiynu cymdeithasol a phlannu coed (e.e. **Coed Caerdydd**), ac ymchwilio a oes unrhyw ddiddordeb gan gontractwyr gofal sylfaenol mewn darparu ymyriadau ar eu safleoedd *(amcan 3, 4 NRAP)*

### Rheoli ein safleoedd

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cwmpasu'r argymhellion o'r **arolygon ecolegol** a gynhaliwyd ar ein safleoedd, i weld a ydynt yn ddichonadwy ar gyfer eu gweithredu yn y flwyddyn ariannol hon *(amcanion 1, 2, 6 NRAP)*
- Adolygu manyleb ein prif **gontract cynnal a chadw tiroedd** pan fydd y contract presennol yn dod i ben, i ymgorffori argymhellion o'r arolygon ecolegol ac unrhyw argymhellion eraill lle bo'n ymarferol, e.e. gan randdeiliaid lleol allweddol *(amcanion 1, 2, 3 NRAP)*
- Archwilio a oes unrhyw ddiddordeb gan **grwpiau trydydd sector a gwirfoddol** lleol mewn cefnogi'r gwaith o reoli unrhyw rannau o'n hystad *(amcan 3 NRAP)*
- Archwilio unrhyw rwystrau i ddefnyddio'r **Ddôl yn Ysbyty Athrofaol Llandochau** gan staff a chleifion *(amcan 3 NRAP)*
- Adolygu a oes lle i wella **gwelliannau bioamrywiaeth sydd wedi'u cynnwys mewn ceisiadau cynllunio** a ddatblygwyd gan y Bwrdd Iechyd, er enghraifft SuDS, waliau gwyrdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer addasu i'r hinsawdd *(amcanion 1, 2, 3 NRAP)*

### Cynyddu capasiti a gwybodaeth

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cynnal **hyfforddiant bioamrywiaeth** gydag Ystadau (wyneb yn wyneb) a Grŵp Gwyrdd BIP Caerdydd a'r Fro (dros Teams), gan wneud yr hyfforddiant Teams ar gael yn ehangach wedyn i unrhyw staff sydd â diddordeb *(amcan 5 NRAP)*
- **Cyfathrebu'n fewnol** yn rheolaidd ar bwysigrwydd bioamrywiaeth i iechyd *(amcan 5 NRAP)*
- Cynnwys cwestiynau mewn **arolygon staff** perthnasol, ar farn staff ar brofiad ac effaith mannau gwyrdd *(amcanion 5 a 6 NRAP)*

### Llywodraethu a risg

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Adolygu'r cynllun hwn yn rheolaidd,** adrodd ar gynnydd yn ei erbyn yn fewnol i'r Bwrdd Cynaliadwyedd ac Ymateb i'r Hinsawdd ac ochr yn ochr â'n hadroddiad blynyddol cyhoeddus, gan gyd-fynd â chylch cynllunio'r BIP *(amcanion 4 a 5 NRAP)*

- Codi bioamrywiaeth wael fel **risg hinsawdd** allweddol i'r BIP, sy'n gofyn am fwy o ffocws, capasiti ac adnoddau i ymateb yn briodol *(amcanion 3, 4, 5 NRAP)*

## Camau gweithredu 'busnes fel arfer'

Mae camau gweithredu rheolaidd, sy'n cyfrannu at amcanion 2, 3 a 4 NRAP, yn cynnwys:

- Torri glaswellt, chwynnu, plannu a rheoli ffiniau/gerddi caeëdig a thoeau 'wedi'u hadu' (Hafan-y-Coed), casglu sbwriel a dail, cymryd rhan ym 'Mai Di-Dor'
- Peidio â defnyddio plaladdwyr ar ein safleoedd
- Cynnal Arolygon Coed Blynyddol yn ôl yr angen a chyflogi contractwyr arbenigol ar gyfer gwaith cynnal a chadw coed.
- Cynnal a chadw Pwll Glan y Llyn YAC gan gontractwr arbenigol.
- Rheoli bywyd gwyllt yn ôl yr angen trwy gontractwr arbenigol a mabwysiadu mesurau rheoli plâu priodol.
- Mae Cynlluniau Cyfalaf yn cael eu datblygu a'u cynllunio yn unol â safonau a chanllawiau bioamrywiaeth perthnasol gan gynnwys: Asesiadau BREAAM, Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SABS), Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ac ati.
- Cynnal Synnwyr Bwyd Cymru o fewn Tîm Iechyd y Cyhoedd BIP Caerdydd a'r Fro
- Ein camau gweithredu datgarboneiddio ehangach, a nodir yn ein cynllun datgarboneiddio